# Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

Mae cynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn ein helpu i fodloni ein dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol sy’n rhan o’r Ddeddf Cydraddoldeb, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Yng Nghymru, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynd ymhellach ac yn cynnwys darpariaethau penodol am ymgysylltu (rheoliad 5) ac asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb (rheoliad 8).

Mae’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb hwn hefyd yn cyflawni’n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a’n hamcanion llesiant i arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru.

Dyma’r nodweddion gwarchodedig y dylech eu hystyried, yn ogystal â’r Gymraeg, wrth gwblhau’r dasg sgrinio hon:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw (gwryw neu fenyw)
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Diben yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

Mae cynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn ein helpu i fodloni ein dyletswyddau cyfreithiol drwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod ein penderfyniadau’n effeithio mewn ffordd deg a, lle bo unrhyw dystiolaeth yr effeithir ar grwpiau mewn ffordd negyddol gan y penderfyniad, sicrhau bod camau gweithredu’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â hyn
- sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn darparu ffordd strwythuredig o gasglu a nodi’r dystiolaeth sydd wedi’i choladu a sut y gwnaed hynny
- sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau’n glir ac yn gyson drwy gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan y polisi neu’r gwaith arfaethedig, gan sicrhau bod y penderfyniadau sy’n cael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth agored a thryloyw; mae hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y penderfyniadau a wneir
- darparu cyfleoedd inni weithio mewn partneriaeth ac ystyried yr effaith ar aelodau o gymunedau a rennir a sut orau i gydweithio ar benderfyniadau a’u cydlynu

**Sylwer:** Dylai’r asesiad gael ei ddefnyddio fel dogfen waith o ddechrau unrhyw waith mewn perthynas â’r cynnig. Dylai gael ei ddiweddaru a’i ddiwygio drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau, a fydd yn helpu i dynnu sylw at unrhyw faterion a’i gwneud hi’n haws i roi mesurau ar waith i liniaru / cyfyngu ar unrhyw anfantais.

Defnyddiwch y ffurflen hon ynghyd â’r canllawiau ar yr asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb sy’n cynnwys gwybodaeth a lle i ymarfer i’ch helpu i lenwi’r ffurflen yn gywir.

## Ffurflen asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Teitl y polisi / gweithdrefn / strategaeth neu brosiect | Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru |
| Enw’r tîm a gwblhaodd y ddogfen | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig |
| Dyddiad cychwyn yr asesiad | Awst 2023 |
| Rhif y fersiwn | Fersiwn 1 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad terfynu’r asesiad | |
| Dyddiad adolygu’r asesiad os yw’n berthnasol | Bydd yr asesiad yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol oes y prosiect |

# Rhowch ddisgrifiad o’r cynnig, ynghyd â’i nodau, ei amcanion a’i effaith

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yw hwn ar gyfer asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau, ac nid yw’n ceisio gwerthuso effaith parc cenedlaethol newydd ar gydraddoldeb. Mae’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb hwn wedi’i gynllunio i sicrhau bod proses asesu CNC yn cydymffurfio â deddfwriaeth.**

**Mae’r ‘cynnig’ y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn cyfeirio’n unig at asesiad CNC ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau – gwerthuso’r achos dros barc cenedlaethol newydd.**

Y prif fesur o lwyddiant y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau) fydd gallu Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud penderfyniadau priodol yn seiliedig ar weithdrefn asesu sy’n seiliedig ar dystiolaeth lawn ac sy’n cydymffurfio â deddfwriaeth. Os yw’n briodol, bydd gorchymyn dynodi sy’n cydymffurfio â deddfwriaeth hefyd yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru. Y nod hefyd yw bod gan bob rhanddeiliad gyfle rhesymol a phriodol i leisio ei farn a’i fod wedi cael y cyfle i ddylanwadu ar y weithdrefn asesu, ac felly ar y cynnig a’r penderfyniad terfynol.

Byddai goblygiadau hirdymor parc cenedlaethol yn sylweddol fwy na chwmpas cyfyngedig yr asesiad hwn. Byddai angen i unrhyw barc cenedlaethol newydd ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol y byddai angen iddo gydymffurfio â hi, ac ystyried agweddau megis cynhwysiant.

Mae gwybodaeth am sut y mae’r cynnig hwn yn ffurfio rhan o gynnig ehangach y prosiect, y nod a’r amcanion cyffredinol, wedi’i manylu isod.

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nodwyd gan Lywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddynodi parc cenedlaethol newydd i Gymru. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a’r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barciau cenedlaethol neu ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNE) newydd; ac felly fe’i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr asesiad.

Nod cynnig cyffredinol y prosiect yw gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE gynt). Pobl Cymru sydd i fod i elwa ar y cynnig hwn; y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae amcanion cyffredinol y cynnig prosiect fel a ganlyn:

- cynnal asesiad trylwyr o'r ardal o amgylch Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel ag y mae ar hyn o bryd o ran ei harddwch naturiol, cyfleoedd ar gyfer hamdden, ac ystyriaeth fwy cyfannol o'r ffactorau eraill sy'n effeithio ar ba mor ddymunol yw'r ardal yn gyffredinol yng ngoleuni dynodi'r ardal

- cynnal ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr drwy gydol y broses sy'n casglu barn yr holl randdeiliaid allweddol yn effeithiol, gan gynnwys y rheini o grwpiau â nodweddion gwarchodedig

- bod CNC yn gwneud penderfyniad ynghylch dynodiad ac, os yw'n briodol, darparu gorchymyn dynodi a thystiolaeth ategol gysylltiedig i Lywodraeth Cymru

Cyflawnir nod ac amcanion cyffredinol y cynnig prosiect drwy asesiadau technegol, casglu tystiolaeth, nifer o gyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori, ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid drwy gydol y broses werthuso. Bydd hyn i gyd yn digwydd o fewn tymor presennol y Senedd (2021–2026).

## Rhowch wybodaeth am yr unigolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynnig

Mae'r cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) yn effeithio'n uniongyrchol ar bawb sy'n byw a/neu sydd â buddiannau yn yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer y parc cenedlaethol newydd arfaethedig.

Mae hyn yn cynnwys pob math gwahanol o bobl; y cyhoedd yn gyffredinol, perchnogion tir, y rheini yn y sector amaethyddol, awdurdodau lleol, cynghorwyr, Aelodau o'r Senedd / Aelodau Seneddol, tîm Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE gynt), grwpiau amgylcheddol, grwpiau treftadaeth, grwpiau cyfleustodau, datblygwyr ynni adnewyddadwy, busnesau lleol, y rheini yn y sector twristiaeth, grwpiau hamdden, trigolion lleol, siaradwyr Cymraeg, twristiaid a'r rheini sy'n rhan

o grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd yn cynnwys unigolion o bob oed gwahanol, boed rheini'n blant a phobl ifanc, hyd at oedolion a'r henoed.

Mae canlyniadau posibl dynodi parc cenedlaethol (neu beidio) hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau, yn enwedig o ran iechyd a'r amgylchedd. Mae parc cenedlaethol yn ymrwymiad hirdymor a bydd ei ddylanwad yn cronni dros amser, felly mae'n rhaid ystyried hefyd genedlaethau'r dyfodol yr effeithir yn fwy arnynt, o bosibl, na'r genhedlaeth bresennol.

Sylwer bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd CNC yn gwneud ei orau i sicrhau bod pawb a grybwyllir uchod, y gallai'r broses werthuso effeithio arnynt, a/neu sydd â diddordeb ynddi, yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen a chyfle i ddweud eu dweud ar y parc cenedlaethol newydd arfaethedig.

## Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl sydd ag un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu eich asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, e.e. rhanddeiliaid, y cyhoedd, grwpiau penodol

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus ddeddfu'r ddyletswydd a rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw cyflawni canlyniadau gwell i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae CNC wedi mabwysiadu'r ddyletswydd o'i wirfodd. Mae angen darparu tystiolaeth ar sut yr ydych chi wedi ymgysylltu â phobl sydd ag un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ac sydd o grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol.

Bydd CNC yn dilyn canllawiau dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru (*https://www.llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol*) a'r polisïau ynddynt. Er enghraifft, bydd CNC yn cydymffurfio ag adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a gyflwynodd un dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, neu "ddyletswydd gyffredinol", sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, a chyrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y ddeddf neu oddi tani
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

- meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Bydd CNC hefyd yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 sy’n rhoi nod cyffredin sy’n rhwymo’n gyfreithiol, sef y saith nod llesiant, ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill.

Mae’r camau a gymerwyd i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn fewnol wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o’r bwrdd rhaglen a chyfarfodydd â phenaethiaid lle, dosbarthu negeseuon e-bost i staff yn CNC, cynnal gweminarau mewnol ar gyfer pob aelod o staff (gweminarau dydd Mercher) a diweddaru’r fewnrwyd, gan eu hysbysu am y cyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori, a’r cyfleoedd i ymgysylltu a rhannu adborth.

Hyd yn hyn, y prif gamau i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn allanol yw sefydlu grŵp cynghori technegol a grŵp cynghori uwch sy’n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o’r pum awdurdod lleol yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, ac mae’r grwpiau hyn wedi cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y rhan fwyaf o 2024 a 2025. Bu ymgysylltiad sylweddol, ond llai rheolaidd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid eraill megis undebau ffermio, cynghorwyr a grwpiau amgylcheddol. Mae’r rhain wedi cynnwys llawer o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein, cyflwyniadau a negeseuon e-bost.

Cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu cyhoeddus cynnar o saith wythnos yn 2023, a chyfnod ymgynghori cyhoeddus o 10 wythnos yn 2024 ar y cynigion sy’n cael eu datblygu. Roedd y ddau gyfnod yn cynnwys digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, a holiadur a gynigiwyd i’r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cafodd y rhain eu cynllunio’n strategol er mwyn sicrhau bod cynifer o wahanol bobl o bob math â phosibl, gan gynnwys y bobl hynny â nodweddion gwarchodedig ac o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol yn cymryd rhan.

Mae CNC wedi ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth o wahanol grwpiau ac unigolion, ac wedi llwyddo i wneud hyn drwy sawl ffordd.  Er enghraifft, mae CNC wedi llwyddo i gyrraedd y rheini ag anableddau gan fod y digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi’u dewis ar y sail eu bod yn hygyrch i bobl anabl, bod digon o le i bobl â phroblemau symudedd symud o gwmpas yr ystafell (e.e. mewn cadair olwyn neu ar faglau, y rheini â chadair wthio neu’n feichiog ac ati) a digon o leoedd i eistedd a siarad â staff mewn corneli tawel o amgylch yr ystafell. Dewiswyd amseroedd a lleoliadau’r digwyddiadau hefyd mewn lleoliadau a fyddai’n helpu i annog grwpiau fel pobl ifanc a myfyrwyr coleg i fynd i’r digwyddiadau hyn. Er enghraifft, cynhaliwyd digwyddiad yng Ngholeg Llysfasi rhwng 3pm a 7pm ar ddydd Mercher penodol a argymhellwyd fel diwrnod ac amser da i ymgysylltu â myfyrwyr gan fod ganddyn nhw’r prynhawn yn rhydd o wersi.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd digwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd yn 2023 a’r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 ar-lein ac wyneb yn wyneb (ledled ardal y parc cenedlaethol arfaethedig), ar amrywiaeth o ddyddiau, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac amseroedd, yn amrywio o 12pm i 7pm, 3pm i 7pm a 6pm i 7.30pm. Cynlluniwyd hyn yn ofalus i ganiatáu cymaint o

gyfleoedd â phosibl i bobl â phob math o anghenion a ffyrdd o fyw gwahanol alw heibio a chymryd rhan. Roedd y gwahanol anghenion a ystyriwyd yn cynnwys pobl a allai fod â chyfrifoldebau gofalu, sydd mewn cyflogaeth, wedi ymddeol, neu'n fyfyrwyr, i enwi ond rhai. Roedd yr holl wybodaeth a oedd yn cael ei dangos ym mhob un o'r digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein hefyd yn ddwyieithog, mewn fformat hygyrch, a gellid gofyn amdani mewn gwahanol fformatau.

Oherwydd cynllunio cyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori gofalus ac ystyriol, aeth 714 o bobl i ddigwyddiadau yn 2023, ac aeth 688 i ddigwyddiadau yn 2024. Cyflwynodd 966 ymatebion i'r holiadur a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus cynnar yn 2023, a chyflwynodd 1,968 ymatebion i'r holiadur a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn 2024.

Ar ddiwedd holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 roedd adran 'amdanoch chi' gyda'r nod o gasglu gwybodaeth bersonol bwysig am unigolion at ddibenion monitro CNC, ac er mwyn sicrhau ein harferion o ran amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu datblygu'n barhaus, a bod pob rhan o gymdeithas yn cael ei chynrychioli. Cwblhaodd 1,911 o bobl yr adran hon yn wirfoddol allan o'r 1,968 o bobl a wnaeth ymateb i'r holiadur ymgynghori. Mae'r data a gasglwyd yn dangos bod CNC wedi llwyddo i gyrraedd amrywiaeth eang o oedrannau o dan 18 oed, 18 i 25 oed, 27 i 34 oed, 35 i 44 oed, 45 i 54 oed, 55 i 64 oed, a 65 oed neu'n hŷn. Y grŵp oedran mwyaf amlwg oedd y rheini rhwng 45 a 54 oed a 65 oed neu'n hŷn. Ymgynghorwyd â chymysgedd cytbwys o ddynion a menywod, ochr yn ochr â'r rheini a nododd eu bod yn draws. Yr ethnigrwydd mwyaf amlwg oedd Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig, ac roedd y grwpiau eraill a nodwyd yn cynnwys Gwyddelod, a Sipsiwn neu Deithwyr. Cymerodd pobl â phob math o anableddau ran, gan gynnwys y rheini ag amhariad ar y clyw, nam corfforol, amhariad ar y golwg, anabledd dysgu, anabledd gwybyddol, anabledd synhwyraidd, cyflwr iechyd meddwl, cyflwr iechyd (yn para 12 mis neu hwy), ac eraill ag awtistiaeth, afiechyd y galon, diabetes, gorbryder, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a dyslecsia. Cymerodd llawer o bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu ar hyn o bryd ran yn y broses hefyd.

Os bydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud y penderfyniad ym mis Gorffennaf 2025 i barhau i gynnal ymgynghoriad statudol, bydd Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig yn parhau i wneud ymdrech ofalus i dargedu a theilwra'r negeseuon cyfathrebu a'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori (e.e. gohebiaeth, dogfennau a digwyddiadau) yn briodol i anghenion gwahanol grwpiau sy'n cynnwys y rheini o grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Gwneir ymdrech fawr i gyrraedd a chynyddu cyfranogiad y rheini na chymerodd gymaint o ran yn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus yn 2023 a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Er enghraifft, ymdrech bellach i dargedu'n strategol a chysylltu'n uniongyrchol, ymgysylltu ac ymgynghori â rhagor o grwpiau o bobl ifanc (e.e. drwy'r clybiau ffermwyr ifanc, yr Urdd), grwpiau ar gyfer y rheini ag anableddau a gofalwyr, cymunedau crefyddol a grwpiau hil (e.e. Muslim Hikers), a grwpiau mamolaeth.

Unwaith y bydd CNC wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid argymell dynodi parc cenedlaethol newydd a chyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cymru, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gyfathrebu i randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd.

Yna bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cymeradwyo, diwygio neu wrthod argymhelliad CNC.

## Y dystiolaeth a ddefnyddiwyd / ystyriwyd

Bydd CNC yn darparu tystiolaeth fanwl o sut y gwnaethom ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig a gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol drwy ddarparu adroddiadau adborth ar holiaduron ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, dogfennau ymgysylltu ac ymgynghori, a chofnodion o ddemograffeg y rheini a roddodd adborth.

Mae tystiolaeth wedi'i chasglu gan CNC o gyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus blaenorol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys safbwyntiau a materion a godwyd yn ystod y cyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Adroddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023 ac Adroddiad Ymgynghori â'r Cyhoedd 2024.

Mae'r dogfennau ymgysylltu ac ymgynghori yn dystiolaeth o sut y gwnaethom geisio ymgysylltu â phobl o bob grŵp a chefndir gwahanol. Mae hyn yn cynnwys Holiadur Ymgysylltu 2023 a Thaflen Ymgysylltu 2023, a Holiadur yr Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 a Thaflen yr Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024.

Commented [JG1]: Link doesn't work, thanks

Commented [JG2]: Link doesn't work, thanks

Commented [JG3]: Link doesn't work, thanks

Mae cofnodion o ddemograffeg y rheini a roddodd adborth o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 yn dystiolaeth o bwy yr ydym wedi llwyddo i ymgysylltu â nhw. Rhannodd 1,911 o bobl allan o'r 1,968 o ymatebwyr i'r holiadur rywfaint o wybodaeth yn wirfoddol â CNC at ddibenion monitro mewnol. Sylwer nad atebodd pob un o'r 1,911 bob adran.

| Oedran | Nifer y crybwylliadau |
|---|---:|
| O dan 18 | 68 |
| 18–24 | 42 |
| 25–34 | 134 |
| 35–44 | 180 |
| 45–54 | 261 |
| 55–64 | 409 |
| 65+ | 585 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 118 |

Fel y gwelir o'r tabl uchod, roedd y mwyafrif o'r rheini a rannodd eu grŵp oedran yn wirfoddol rhwng 55 a 64 oed a 65 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn cyd-fynd â data disgwyliedig Cyfrifiad 2021 ar gyfer y grwpiau oedran ym mhob sir (gweler y prif ystadegau isod). Fodd bynnag, o ystyried yr effeithir ar genedlaethau'r dyfodol fwyaf yn yr hirdymor gan barc cenedlaethol newydd, rydym yn cydnabod blaenoriaeth i wella cyfranogiad gan gategorïau oedran iau.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod cynnydd wedi bod ym mhoblogaethau sy'n heneiddio ym Mhowys, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam. Ym Mhowys, cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed ychydig dros 3,600 (cynnydd o 22.5%), tra roedd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng tua 5,300 (gostyngiad o 20.5%). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Powys 2021. Cyfeirir at Wynedd fel 'Gwynedd hŷn'. Yng Ngwynedd, cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed ychydig o dan 1,300 (cynnydd o 9.6%), tra roedd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng ychydig dros 4,100 (gostyngiad o 18.2%). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Gwynedd 2021. Yn Sir y Fflint, cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed ychydig o dan 3,000 (cynnydd o 19.5%), tra roedd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng tua 4,500 (gostyngiad o 13.8%). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir y Fflint 2021. Yn Sir Ddinbych, cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed ychydig dros 2,100 (cynnydd o 19.9%), tra roedd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng ychydig dros 3,100 (gostyngiad o 16.7%). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir Ddinbych 2021. Yn Wrecsam, cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed tua 2,500 (cynnydd o 20.3%), tra roedd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng tua 2,900 (gostyngiad o 10.2%). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Wrecsam 2021. Mae'r data hyn yn dangos, felly, ar draws pob un o'r pum awdurdod lleol, fod pob grŵp oedran rhwng 65 a 74 oed wedi cynyddu, a phob grŵp oedran rhwng 35 a 49 oed wedi gostwng.

| **Rhywedd** | **Nifer y crybwylliadau** |
|---|---:|
| Gwryw | 910 |
| Benyw | 783 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 104 |
| Heb ateb | 95 |
| Arall | 19 |

O'r rheini a rannodd eu rhywedd yn wirfoddol, roedd cydbwysedd cyffredinol rhwng ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd, gyda dim ond ychydig yn fwy o wrywod.  Roedd ymatebwyr traws hefyd yn nodi eu hunain yn y categori arall.

Ar y cyfan, bu cynrychiolaeth dda o wrywod a menywod, gyda rhywfaint o gyfranogiad da gan yr unigolion hynny megis unigolion traws a ddewisodd y categori 'arall'. Fodd bynnag, mae yna le i wneud mwy i ymgysylltu â'r 'grwpiau eraill' hynny yn y dyfodol.

| Ethnigrwydd | Nifer y crybwylliadau |
|---|---|
| Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig | 1,707 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall | 26 |
| Gwyddelig | 11 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 3 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 12 |
| Gwyn ac Asiaidd | 9 |
| Unrhyw gefndir cymysg neu luosog arall | 5 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 3 |
| Pacistanaidd | 4 |
| Indiaidd | 5 |
| Tsieineaidd | 2 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 3 |
| Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 2 |
| Caribïaidd | 4 |
| Cefndir Affricanaidd | 4 |
| Arabaidd | 7 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 2 |

O’r rheini a rannodd eu hethnigrwydd yn wirfoddol, roedd y mwyafrif (mewn gwirionedd, bron pob un) yn Gymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig, gyda rhai eraill hefyd yn uniaethu fel Gwyddelig, Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Du a Gwyn Caribïaidd, Gwyn ac Asiaidd, cefndir cymysg neu luosog arall, Gwyn a Du Affricanaidd, Pacistanaidd, Indiaidd, Tsieineaidd, unrhyw gefndir Asiaidd arall, Du arall, cefndiroedd Du Prydeinig neu Garibïaidd, Caribïaidd, cefndiroedd Affricanaidd, ac Arabaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â data Cyfrifiad 2021 ar grwpiau ethnig ym mhob sir (gweler y prif ystadegau isod). Fodd bynnag, unwaith eto, mae lle i wneud mwy i geisio ymgysylltu â’r lleiafrifoedd ethnig hynny, a grwpiau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn y dyfodol.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r ethnigrwydd mwyaf amlwg ym Mhowys, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam yw'r unigolion Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig, a bod Sir y Fflint a Wrecsam wedi gweld twf yn y rheini sy'n nodi hunaniaeth yn y categori "cymysg neu luosog".

Yn 2021, nododd 47.0% o drigolion Powys mai Cymru oedd eu gwlad enedigol, tra bod 46.9% wedi nodi mai Lloegr oedd hi. O blith trigolion Powys, roedd 42.0% yn nodi eu bod yn "Gymreig" (a heb unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall) yn 2021, i lawr o 43.3% yn 2011. Cynyddodd canran y trigolion ym Mhowys a nododd eu bod yn "Brydeinig yn unig" o 21.0% i 24.4%. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Powys 2021.

Yn 2021, nododd 66.6% o drigolion Gwynedd mai Cymru oedd eu gwlad enedigol. Hefyd yn 2021, roedd ychydig o dan chwech o bob 10 o bobl (59.3%) yng Ngwynedd yn nodi eu bod yn "Gymreig" (a heb unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall), o'i gymharu â 59.0% yn 2011. Cynyddodd canran y trigolion yng Ngwynedd a nododd eu bod yn "Brydeinig yn unig" o 14.2% i 15.3%. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Gwynedd 2021.

Yn 2021, nododd 47.9% o drigolion Sir y Fflint mai Cymru oedd eu gwlad enedigol. O blith trigolion Sir y Fflint, roedd 34.7% yn nodi eu bod yn "Gymreig" (a heb unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall) yn 2021, i lawr o 35.9% yn 2011. Cynyddodd canran y trigolion yn Sir y Fflint a nododd eu bod yn "Brydeinig yn unig" o 23.2% i 25.8%. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir y Fflint. Yn 2021, nododd 97.6% o bobl yn Sir y Fflint eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "gwyn" (o'i gymharu â 98.5% yn 2011), tra bod 0.9% wedi nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Gymreig" (o'i gymharu â 0.8% yn y degawd blaenorol). Roedd y 0.9% o drigolion Sir y Fflint a nododd eu bod yn y categori "cymysg neu luosog" i fyny o 0.6% yn 2011. Y newid o 0.4 pwynt canran hwn oedd y cynnydd mwyaf ymhlith grwpiau ethnig lefel uchel yn yr ardal hon. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir y Fflint 2021.

Yn y cyfrifiad diweddaraf, dywedodd tua 56,400 o drigolion Sir Ddinbych eu bod wedi'u geni yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli 58.8% o'r boblogaeth leol. Mae'r ffigur wedi codi o ychydig o dan 54,500 yn 2011, a oedd ar y pryd yn cynrychioli 58.1% o boblogaeth Sir Ddinbych. Lloegr oedd yr ail wlad uchaf o ran gwlad enedigol, gydag ychydig dros 33,700 o drigolion Sir Ddinbych yn nodi eu bod nhw wedi cael eu geni yn y wlad honno (35.2%). Roedd y ffigur hwn i lawr o ychydig dros 34,000 yn 2011, a oedd ar y pryd yn cynrychioli 36.3% o boblogaeth Sir Ddinbych. Yn 2021, gwelodd Sir Ddinbych yr ail gynnydd pwynt canran mwyaf yng Nghymru yng nghyfran y bobl a nododd eu bod yn "Gymreig yn unig" (o 44.1% yn 2011 i 44.7% yn 2021). Nododd 21.9% eu bod yn "Brydeinig yn unig". Yn 2021, nododd 96.5% o bobl yn Sir Ddinbych eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "gwyn" (o'i gymharu â 97.4% yn 2011), tra bod 1.7% wedi nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Gymreig" (o'i gymharu ag 1.5% yn y degawd blaenorol). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir Ddinbych 2021.

Yn y cyfrifiad diweddaraf, dywedodd tua 91,800 o drigolion Wrecsam eu bod wedi'u geni yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli 67.9% o'r boblogaeth leol. Mae'r ffigur wedi gostwng o ychydig o dan 93,400 yn 2011, a oedd ar y pryd yn cynrychioli 69.2% o

boblogaeth Wrecsam. Lloegr oedd yr ail wlad uchaf o ran gwlad enedigol, gydag ychydig o dan 31,400 o drigolion Wrecsam yn nodi eu bod nhw wedi'u geni yn y wlad honno (23.2%). Roedd y ffigur hwn i lawr o ryw 31,500 yn 2011, a oedd ar y pryd yn cynrychioli 23.4% o boblogaeth Wrecsam. Cododd nifer trigolion Wrecsam a anwyd yng Ngwlad Pwyl o ychydig o dan 2,700 yn 2011 (2.0% o'r boblogaeth leol) i ychydig dros 3,500 yn 2021 (2.6%). O blith trigolion Wrecsam, roedd 50.2% yn nodi eu bod yn "Gymreig" (a heb unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall) yn 2021, i lawr o 52.0% yn 2011. Cynyddodd canran y trigolion yn Wrecsam a nododd eu bod yn "Brydeinig yn unig" o 17.5% i 18.8%. Yn 2021, nododd 1.2% o drigolion Wrecsam eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "cymysg neu luosog", i fyny o 0.7% yn 2011. Y newid o 0.4 pwynt canran hwn oedd y cynnydd mwyaf ymhlith grwpiau ethnig lefel uchel yn yr ardal hon. Yn 2021, nododd 96.0% o bobl yn Wrecsam eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "gwyn" (o'i gymharu â 96.9% yn 2011), tra bod 1.7% wedi nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Gymreig" (hefyd 1.7% yn y degawd blaenorol). Cynyddodd canran y bobl a nododd eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig "Arall" ("Arabaidd" neu "unrhyw grŵp ethnig arall") o 0.2% yn 2011 i 0.6% yn 2021. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Wrecsam 2021.

| **Anabledd neu gyflwr iechyd** | **Nifer y crybwylliadau** |
|---|---:|
| Amhariad ar y clyw | 169 |
| Nam corfforol | 85 |
| Amhariad ar y golwg | 45 |
| Anabledd dysgu | 29 |
| Anabledd gwybyddol | 12 |
| Anabledd synhwyraidd | 11 |
| Iechyd meddwl | 57 |
| Cyflwr iechyd (yn para am 12 mis neu hwy) | 171 |
| Cyflwr iechyd (yn para dros 12 mis neu hwy) | 1 |
| Arall | 40 |

Llwyddodd CNC i ymgysylltu â llawer o bobl â phob math o anableddau a chyflyrau iechyd, gan gynnwys y rheini ag amhariad ar y clyw, nam corfforol, amhariad ar y golwg, anabledd dysgu, anabledd gwybyddol, anabledd synhwyraidd ac amrywiol gyflyrau iechyd. Mae parhau i wneud ymdrech i gynyddu ymgysylltiad â'r unigolion hyn i'r lefel uchaf bosibl yn y dyfodol yn bwysig.

Gan dynnu ar ystadegau o Gyfrifiad 2021, mae'n dangos bod canran y bobl sy'n nodi eu bod yn anabl ac yn gyfyngedig iawn wedi gostwng yn gyffredinol ym Mhowys, Gwynedd, Sir y Fflint, a Wrecsam, tra bod y garfan hon wedi cynyddu rhyw fymryn yn Sir Ddinbych.

Gostyngodd canran y bobl a nodwyd fel rhai anabl ac â chyfyngiadau mawr ym Mhowys 1.5 pwynt canran rhwng 2011 a 2021. Yn 2021, nodwyd bod ychydig dros un o bob 10 o bobl (10.5%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o'i gymharu â 10.2% yn 2011. Cynyddodd cyfran trigolion Powys nad oeddent yn anabl o 80.7% i 81.9%. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Powys 2021.

Gostyngodd canran y bobl a nodwyd fel unigolion ag anabledd a chyfyngiadau mawr yng Ngwynedd 1.7 pwynt canran. Yn 2021, nodwyd bod ychydig dros un o bob 10 o bobl (10.3%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o'i gymharu â 10.6% yn 2011. Cynyddodd cyfran trigolion Gwynedd nad oeddent yn anabl o 80.0% i 81.9%. Yr ardal hon oedd â'r drydedd gyfran isaf yn y wlad o drigolion a nodwyd fel unigolion ag anabledd ac wedi'u cyfyngu'n fawr, a'r gyfran isaf o drigolion a nodwyd fel unigolion ag anabledd ac wedi'u cyfyngu ychydig. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Gwynedd 2021.

Gostyngodd canran y bobl a nodwyd fel unigolion ag anabledd a chyfyngiadau mawr yn Sir y Fflint 1.8 pwynt canran. Roedd y gyfran a nodwyd fel unigolion ag anabledd ac wedi'u cyfyngu ychydig wedi aros ar 10.3%, tra bod cyfran trigolion Sir y Fflint nad oeddent yn anabl wedi cynyddu o 79.6% i 81.4%. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y trigolion a nodwyd fel unigolion anabl ac wedi'u cyfyngu'n fawr yn fwy yn Sir y Fflint (1.8 pwynt canran) nag yn Sir Ddinbych gyfagos (1.3 pwynt canran). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir y Fflint 2021.

Cynyddodd canran y bobl a nodwyd fel unigolion ag anabledd ac wedi'u cyfyngu ychydig yn Sir Ddinbych 0.8 pwynt canran. Gwelodd Sir Ddinbych y cynnydd pwynt canran mwyaf yng Nghymru yng nghyfran y trigolion a nodwyd fel unigolion anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig (o 10.9% yn 2011 i 11.7% yn 2021). Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Sir Ddinbych 2021.

Gostyngodd canran y bobl a nodwyd fel unigolion ag anabledd a chyfyngiadau mawr yn Wrecsam 2.0 pwynt canran. Yn 2021, nodwyd bod 9.3% o drigolion Wrecsam yn anabl ac wedi'u cyfyngu llawer. Gostyngodd y ffigur hwn o 11.3% yn 2011. Yn 2021, nodwyd bod ychydig o dan un o bob naw o bobl (11.0%) yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig, o'i gymharu â 10.8% yn 2011. Cynyddodd cyfran trigolion Wrecsam nad oeddent yn anabl o 77.9% i 79.6%. Dysgwch fwy yn Cyfrifiad Wrecsam 2021.

Mae'n bwysig nodi bod y data a ddarperir uchod yn gyfrannau safonedig yn ôl oedran, a bod Cyfrifiad 2021 wedi'i gynnal yn ystod pandemig COVID-19. Efallai fod hyn wedi dylanwadu ar sut yr oedd pobl yn canfod eu statws iechyd a'u cyfyngiadau o ran gweithgaredd, ac felly efallai ei fod wedi effeithio ar sut roedd pobl yn dewis ymateb. Dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau rhwng 2011 a 2021 oherwydd newidiadau yng ngeiriad y cwestiynau a'r opsiynau ymateb.

| **A ydych chi'n gyfrifol ar hyn o bryd am ofalu am oedolyn sy'n berthynas / partner, plentyn anabl neu rywun arall?** | **Nifer y crybwylliadau** |
|---|---|
| Ydw | 161 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nac ydw | 1,410 | |

Rhannodd ychydig o ymatebwyr eu bod yn gyfrifol ar hyn o bryd am ofalu am berthynas / partner sy'n oedolyn, plentyn anabl neu rywun arall, ond dywedodd y mwyafrif nad oeddent. Mae parhau i wneud ymdrech i sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol yn hygyrch i unigolion a allai fod â chyfrifoldebau gofalu yn dal i fod yn bwysig.

# Nodweddion gwarchodedig

Mae pawb ym Mhrydain yn warchodedig. Y rheswm dros hyn yw bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl yn erbyn gwahaniaethu oherwydd y nodweddion gwarchodedig sydd gennym ni oll. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ceir naw nodwedd warchodedig. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o ymgysylltu â phobl eraill, ystyriwch yr effeithiau y gallai'r cynnig eu cael ar y nodweddion gwarchodedig a restrir isod.

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau dynol penodol wedi'u gwarantu gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae ganddynt 42 o hawliau o dan CCUHP, wedi'u cynllunio er mwyn rhoi iddynt bopeth y mae ei angen arnynt i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae CNC yn sefydliad hawliau plant, ac mae ganddo Siarter Hawliau Plant. I gael rhagor o gymorth, dylech anfon neges e-bost i addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Oedran<br>• o dan 16<br>• 16–24<br>• 25–34<br>• 35–44<br>• 45–54 | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl o bob oed. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw grŵp oedran yn cael ei dangynrychioli yn yr asesiad. | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl o bob oed, |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| • 55–59<br>• 60–64<br>• 65–74<br>• 75+ | | Mae'r pwyslais ar gynhwysiant, a sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgysylltu ac ymgynghori, a bod barn yr holl grwpiau oedran gwahanol hyn yn cael eu clywed ac yn cyfrannu at y cynnig.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o'r ymgynghoriad ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau oedran penodol.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch | yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor fel a ganlyn:<br><br>1. Cynllunio'r ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth<br>2. Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny<br>3. Cynllunio a chyflwyno'r ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol<br>4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol<br>5. Dim jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir, |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | | fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall<br><br>6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan<br><br>7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol<br><br>8. Rhoi'r adnoddau a'r cymorth priodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol<br><br>9. Rhoi gwybod i bobl beth yw effaith eu cyfraniad<br><br>10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu<br><br>Pobl ifanc dan 16 oed, a rhwng 16 a 24 oed fu'r grwpiau anoddaf i'w cyrraedd, ac felly byddai mwy o gyswllt ac ymgysylltu uniongyrchol â grwpiau a sefydliadau penodol yn helpu i gynyddu |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | | | cyfranogiad. Fel y crybwyllwyd uchod yn yr adran dystiolaeth, y grwpiau hyn yw'r rheini yr effeithir arnynt fwyaf gan barc cenedlaethol newydd, ac felly mae eu cyfranogiad yn hanfodol. |
| Anabledd<br><br>• Amhariad ar y clyw<br>• Nam corfforol<br>• Amhariad ar y golwg<br>• Anabledd dysgu<br>• Anabledd gwybyddol<br>• Anabledd synhwyraidd<br>• Iechyd meddwl<br>• Cyflwr iechyd (yn para am 12 mis neu hwy)<br>• Arall | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl ag anableddau. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw pobl ag anableddau yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae'r pwyslais ar gynhwysiant drwy gydol y broses werthuso, mewn digwyddiadau ac ar draws yr holl wybodaeth, gan sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o'r ymgynghoriad ddatgan y byddai'r asesiad yn | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl ag anabledd, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu'n |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | | cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp anabledd penodol.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | uniongyrchol â sefydliadau penodol a grwpiau lleol a allai godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y dyfodol a helpu i gael y cyfranogiad uchaf posibl. |
| Ailbennu rhywedd | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith gadarnhaol ar bobl sydd wedi mynd trwy broses ailbennu rhywedd. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw pobl sydd wedi mynd trwy'r broses o ailbennu rhywedd yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae'r pwyslais ar hyn o bryd, fel yn y gorffennol, drwy gydol y broses, ar gynhwysiant yn y | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar y rheini sydd wedi ailbennu eu rhywedd, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | | digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori, gan sicrhau lleoliadau cynhwysol diogel (toiledau, arwyddion), iaith gynhwysol, holiaduron cynhwysol, sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o'r ymgynghoriad ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar y rheini sydd wedi ailbennu eu rhywedd.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y rheini sydd wedi mynd trwy broses o ailbennu rhywedd oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r | Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau penodol fel Gwasanaeth Rhywedd Cymru, Umbrella Cymru a Trans Aid Cymru ynglŷn â'r cynnig a'u hannog i roi gwybod i'w cysylltiadau am ddigwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol i helpu i gael y cyfranogiad uchaf posibl. |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | | broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae'r pwyslais ar gynhwysiant, a sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Mae pob perthynas wedi cael ei hystyried, a bydd yn cael ei hystyried (sengl, mewn perthynas, gweddw, wedi ysgaru neu unrhyw berthynas arall). | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar y rheini sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod. |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | | Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar y rheini sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl feichiog. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw pobl feichiog yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae'r pwyslais ar gynhwysiant, a sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar bobl feichiog. | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl sy'n feichiog, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu'n |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl feichiog oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Hefyd, diben parc cenedlaethol yw cynyddu nodweddion arbennig yr ardal, ac felly, mae'n debygol y bydd gan y grŵp hwn, ynghyd â phawb arall, fynediad gwell at natur a'r awyr agored ac, o ganlyniad, iechyd gwell hefyd. | uniongyrchol â grwpiau mamolaeth penodol yn yr ardal a gynigir fel parc cenedlaethol newydd i helpu i gael y cyfranogiad uchaf posibl. |
| Hil<br><br>• Arabaidd<br>• Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:Indiaidd | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw hil benodol yn | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi’n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| • Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:Pacistanaidd<br>• Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:Bangladeshaidd<br>• Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:Tsieineaidd<br>• Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:Arall<br>• Du neu Ddu Prydeinig:Affricanaidd<br>• Du neu Ddu Prydeinig:Caribïaidd<br>• Du neu Ddu Prydeinig:Arall<br>• Cymysg:Gwyn ac Asiaidd<br>• Cymysg:Gwyn a Du Affricanaidd<br>• Cymysg:Gwyn a Du Caribïaidd<br>• Cymysg:Arall<br>• Gwyn: Prydeinig<br>• Gwyn: Gwyddelig<br>• Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br>• Gwyn: Arall<br><br>Arall | o bob hil os caiff ei gyfathrebu ac os ymgynghorir â nhw mewn ffordd effeithiol. | cael ei thangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae’r pwyslais ar hyn o bryd, fel yn y gorffennol, ar sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi’u teilwra’n briodol ac sy’n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o’r ymgynghoriad ddatgan y byddai’r asesiad yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp hil penodol.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl o bob hil oherwydd bod ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch | gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl o bob hil, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae’r 10 egwyddor wedi’u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae’r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu’n uniongyrchol â grwpiau cymunedol ethnig penodol, sefydliadau sy’n gysylltiedig â mudwyr a ffoaduriaid (e.e. Cyngor Ffoaduriaid Cymru, City of Sanctuary, Y Groes Goch Brydeinig), Sipsiwn a Theithwyr Cymru (GT Wales), yn yr ardal sy’n cael ei hystyried fel parc cenedlaethol newydd arfaethedig ynglŷn â’r cynnig, a’u hannog i roi gwybod i’w cysylltiadau am y digwyddiadau ymgynghori. |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| • Grwpiau ethnig eraill<br>• Sipsiwn, Teithwyr, Roma<br>• Ffoaduriaid a cheiswyr lloches<br>• Gweithwyr mudol | | fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| Crefydd neu gred<br><br>• Bwdhaeth<br>• Cristnogaeth<br>• Hindŵaeth<br>• Dyneiddiaeth<br>• Iddewiaeth<br>• Islam<br>• Siciaeth<br>• Dim cred<br>• Arall | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl o bob crefydd a chred wahanol. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw unigolyn o unrhyw grefydd neu gred penodol yn cael ei dangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae'r pwyslais ar sicrhau llu o gyfleoedd sydd wedi'u teilwra'n briodol ac sy'n hygyrch i ymgynghori, a bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp crefyddol penodol. | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl o bob crefydd a chred gwahanol, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau cymunedol crefyddol a |

| **Nodweddion gwarchodedig** | **A ydych chi’n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | | Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl o bob crefydd a chred gwahanol oherwydd bod ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | mannau addoli yn yr ardal sy’n cael ei hystyried fel parc cenedlaethol newydd arfaethedig ynglŷn â’r cynnig a’u hannog i roi gwybod i’w cysylltiadau am y digwyddiadau ymgynghori. |
| Rhyw<br>• Gwryw<br>• Benyw | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso’r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar wrywod a benywod. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw gwrywod na benywod yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae’r pwyslais ar gynhwysiant a hygyrchedd, gan ystyried materion posibl yn ymwneud â chyfrifoldeb megis cyfrifoldebau gofalu a bod yn ddibynnydd a allai rwystro rhai pobl o’r ddau ryw rhag gallu | Mae’r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol ar wrywod a benywod, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae’r 10 |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | | mynd i ddigwyddiadau'n hawdd. Cynigiwyd amrywiaeth o ddyddiadau, dyddiau'r wythnos ac amseroedd gwahanol ar gyfer y digwyddiadau yn ystod cyfnod ymgysylltu cyhoeddus 2023 ac ymgynghoriad cyhoeddus 2024, gan arwain at ganlyniad cymharol gytbwys o ran gwrywod a benywod.<br><br>Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar wrywod a/neu fenywod.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar wrywod a benywod oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith | egwyddor wedi'u rhestru uchod. |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | | negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol<br><br>• Deurywiol<br>• Dynion hoyw<br>• Menywod hoyw / lesbiaidd<br>• Heterorywiol / syth | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar bobl o bob cyfeiriadedd rhywiol. | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw unigolyn o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol penodol yn cael ei dangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae CNC yn canolbwyntio ar gynhwysiant drwy gydol y broses werthuso. Mae hyn yn cynnwys cynhwysiant mewn digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori, yn y mannau a'r lleoliadau a ddefnyddir, a'r iaith a ddefnyddir yn y taflenni gwybodaeth. Mae sicrhau cyfleoedd hygyrch a digonol i ymgynghori, rhannu adborth a sicrhau bod barn y grwpiau hyn yn cael eu clywed wedi bod yn flaenoriaeth ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth. | Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan CNC, ac a fydd yn cael eu cymryd mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i liniaru effeithiau negyddol, neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol ar bobl o bob cyfeiriadedd rhywiol, yn cynnwys dilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u rhestru uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r camau y gall CNC eu cymryd yn cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau LHDTC+ (fel LGBT Cymru, Pride Cymru) am y cynnig a'u hannog i roi gwybod i'w |

| Nodweddion gwarchodedig | A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig? | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl | Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| | | Ni wnaeth unrhyw adborth a ddarparwyd o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ddatgan y byddai'r asesiad yn cael effaith negyddol ar unigolion o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol penodol.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl o bob cyfeiriadedd rhywiol oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf. Dysgwch fwy am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | cysylltiadau am y digwyddiadau ymgynghori. |

## Y Gymraeg

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg gyfwerth â'r Saesneg ac, fel rhan o'u dyletswyddau, mae gofyn i sefydliadau cyhoeddus nodi effeithiau ar y Gymraeg. Ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ni ddylai'r iaith gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ein gwaith.

Polisi Safonau'r Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru

Dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar ystyriaethau i'w rhoi i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

| **Y Gymraeg** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu defnydd o'r Gymraeg?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei gyflawni'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?<br><br>A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfle i bobl gael mynediad i wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>A fydd y cynnig yn trin y Gymraeg llawn cystal â'r Saesneg?<br><br>A oes unrhyw gyfleoedd i annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg? | Oherwydd yr angen i ymgynghori ar y cynnig hwn a nodi'r effeithiau ar y Gymraeg, mae asesiad effaith ar wahân ar y Gymraeg yn cael ei lunio. | Oherwydd yr angen i ymgynghori ar y cynnig hwn a nodi'r effeithiau ar y Gymraeg, mae asesiad effaith ar wahân ar y Gymraeg yn cael ei lunio. | Oherwydd yr angen i ymgynghori ar y cynnig hwn a nodi'r effeithiau ar y Gymraeg, mae asesiad effaith ar wahân ar y Gymraeg yn cael ei lunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A oes cyfleoedd i gadw, hyrwyddo a gwella diwylliant a threftadaeth leol, neu annog pobl i ddysgu'r Gymraeg? | | | |

## Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

Sut mae'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anfantais a hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb a gwella perthnasoedd da â phobl o grwpiau economaidd gwahanol?

[Canllawiau trosolwg Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol]

| **Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y grwpiau rydych chi wedi ymgysylltu â hwy?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | Mae CNC wedi ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth o grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol, gan gynnwys pobl mewn cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ddi-waith, wedi ymddeol, ac mewn addysg.<br><br>Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud penderfyniadau – gwerthuso'r | Bydd ganddo effaith niwtral gan fod CNC yn ceisio sicrhau nad yw pobl o rai grwpiau economaidd-gymdeithasol yn cael eu tangynrychioli yn yr asesiad.<br><br>Mae CNC yn ceisio hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb drwy roi cyfleoedd cyfartal i bob ymatebydd, ni waeth beth fo'u safle economaidd-gymdeithasol, i rannu eu | Mae'r camau y bydd CNC yn eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol, yn cynnwys cynnal digwyddiadau mewn ardaloedd a nodwyd fel rhai â chymunedau difreintiedig ar y map Asesu'r Effaith ar Iechyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral. | hadborth ar y cynnig (trwy gyflwyno holiadur). Mae pob barn wedi cael ei dadansoddi'n ofalus, ac mae pob un yn cael ei hystyried yn gyfartal. Dangosir hyn yn y ffordd y dadansoddwyd holiaduron ymgynghori cyhoeddus yn 2023 a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, a'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiadau. Nid oedd un barn yn dominyddu'r canfyddiadau yn seiliedig ar eu cefndir economaidd-gymdeithasol.<br><br>Dros amser, mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar grwpiau economaidd-gymdeithasol oherwydd bydd ganddo ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses asesu ei hun yn ceisio peidio â chael effaith negyddol yn bennaf.<br><br>Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 un Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus neu “ddyletswydd gyffredinol”. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff, wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'n debygol y byddai parc cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth a busnes yn yr ardal gan y byddai cynnydd o ran nifer y cyfleoedd sydd ar gael. | |

## Hawliau dynol

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a mathau o ryddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU yr hawl iddynt.  A ydyw'r cynnig yn debygol o gyfyngu ar y Ddeddf Hawliau Dynol, neu a ydyw'n cynrychioli cyfle a gollwyd i gefnogi'r ddeddf hon?

| **Hawliau dynol** | **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol?** | **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol, neu ddim effaith o gwbl** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| | Bydd gan y cynnig (asesiad CNC ar gyfer gwneud | Bydd ganddo effaith niwtral ar yr hawl i ryddid mynegiant gan | Mae'r camau y bydd CNC yn eu cymryd i liniaru effeithiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | penderfyniadau – gwerthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd) effaith niwtral ar yr hawl i ryddid mynegiant o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. | fod CNC yn ceisio sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud, a mynegi eu barn a'u teimladau yn rhydd yn yr asesiad. Mae hyn wedi cael ei annog drwy gyflwyno holiaduron ar-lein a holiaduron sydd wedi'u hargraffu, drwy anfon negeseuon e-bost i fewnflwch y prosiect, drwy anfon llythyrau at dîm y prosiect, a/neu drwy fynegi eu hunain yn rhydd mewn digwyddiadau.<br><br>Yn ei hanfod, mae'r broses asesu ei hun yn ceisio, yn bennaf, peidio â chael effaith negyddol ar yr hawl i ryddid mynegiant o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. | negyddol a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol yn cynnwys dilyn ac ymgorffori'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ofalus drwy gydol y broses werthuso a thu hwnt. |

## Cryfhau'r cynnig

Os yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw un o'r uchod (gan gynnwys unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig), pa newidiadau / camau allai helpu i leihau neu ddileu effeithiau negyddol a nodwyd?

Dylai'r holl gamau gweithredu a nodwyd gael eu cynnwys yma. Y rhai y mae arnynt angen camau gweithredu i liniaru neu ddileu effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp penodol a'r camau gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasoedd da.

| Camau gweithredu a nodwyd | Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Beth fydd y canlyniad bwriadedig / y gwahaniaeth a fydd yn cael ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Amserlen ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Ceisio cynyddu nifer y bobl iau sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Gwneud mwy o gyswllt uniongyrchol ac ymdrech i dargedu aelodau allweddol o sefydliadau fel y Clwb Ffermwyr Ifanc, a Senedd Ieuenctid Cymru i godi ymwybyddiaeth yn eu plith, lledaenu'r gair am y cynnig a'r ymgynghoriad statudol posibl sydd ar ddod, a naill ai defnyddio digwyddiad sydd eisoes yn bodoli yn eu calendr i ymuno ag ef fel rhan o'r digwyddiadau ymgynghori statudol neu gynnal digwyddiad wedi'i dargedu ein hunain a'u gwahodd iddo.<br><br>Yn ogystal â hyn, byddai sicrhau bod yr wybodaeth ymgynghori statudol yn briodol i | Cynnydd yn nifer y bobl iau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori, a'r adborth sy'n cael ei gyflwyno ar ffurf holiadur yn ystod yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wahanol oedrannau yn hanfodol. | | | |
| Ceisio cynyddu nifer y bobl o wahanol grwpiau ethnig sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Cysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau (gan gynnwys grwpiau hamdden fel Muslim Hikers) a fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl hyn, gan annog cyfranogiad mewn digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol, a phobl o bob math o gefndir i gyflwyno eu hadborth trwy'r holiadur. | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl a fyddai'n mynd i'r digwyddiadau ymgynghori a'r adborth sy'n cael ei gyflwyno trwy'r holiadur yn yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |
| Ceisio cynyddu nifer y bobl o wahanol gymunedau a grwpiau crefyddol sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Cysylltu â grwpiau cymunedol crefyddol a lleoedd addoli yn yr ardal sy'n cael ei ystyried ar gyfer y parc cenedlaethol newydd arfaethedig ynglŷn â'r cynnig, a'u hannog i roi gwybod i'w cysylltiadau am y digwyddiadau ymgynghori. | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl a fyddai'n mynd i'r digwyddiadau ymgynghori a'r adborth sy'n cael ei gyflwyno trwy'r holiadur yn yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |
| Ceisio cynyddu nifer y bobl anabl (gweladwy a chudd), ynghyd â'u | Sicrhau bod lleoliadau'r ymgynghoriad yn parhau i fod yn gwbl | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gofalwyr, sy’n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | hygyrch (e.e. hygyrch i gadeiriau olwyn, mynedfa â ramp, ar y llawr cyntaf, toiled i bobl anabl ac ati), a bod yr holl ddogfennau ymgynghori statudol wedi’u teilwra ac ar gael i weddu i ofynion y bobl hynny sydd ag anghenion gwahanol. Parhau i gynnig opsiynau ar gyfer cymryd rhan ar-lein i’r rheini na allant deithio. | mewn digwyddiadau ymgynghori a’r adborth sy’n cael ei gyflwyno trwy holiadur yr ymgynghoriad statudol. | | |
| Ceisio cynyddu nifer y rheini sydd wedi ailbennu eu rhywedd, neu sy’n mynd drwy’r broses honno ar hyn o bryd, sy’n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Sicrhau bod yr holl ddogfennau yn defnyddio iaith gynhwysol, a chysylltu â sefydliadau fel Gwasanaeth Rhywedd Cymru, Umbrella Cymru a Trans Aid Cymru ynglŷn â’r cynnig, a’u hannog i roi gwybod i’w cysylltiadau am unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol i helpu i gael y cyfranogiad uchaf posibl. | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori a’r adborth sy’n cael ei gyflwyno trwy holiadur yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ceisio cynyddu nifer y bobl feichiog sy’n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Cysylltu â mamau / rhieni newydd lleol, grwpiau mamolaeth yn yr ardal sy’n cael ei chynnig fel parc cenedlaethol newydd i helpu i gael y cyfranogiad uchaf posibl. | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori a’r adborth sy’n cael ei gyflwyno trwy holiadur yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |
| Ceisio cynyddu nifer yr unigolion deurywiol, dynion hoyw, menywod hoyw / unigolion lesbiaidd sy’n cymryd rhan ac yn ymgysylltu | Cysylltu â grwpiau LHDTC+ (fel LGBT Cymru, Pride Cymru) ynglŷn â’r cynnig, a’u hannog i roi gwybod i’w cysylltiadau am y digwyddiadau ymgynghori. | Y canlyniad dymunol fyddai cynnydd yn nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori a’r adborth sy’n cael ei gyflwyno trwy holiadur yr ymgynghoriad statudol. | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |
| Dylai’r cam gweithredu barhau i ddilyn yn agos yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae’r 10 egwyddor fel a ganlyn: | Ystyriwch a defnyddiwch yr holl egwyddorion hyn wrth gynllunio’n strategol unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol. | Cyfathrebu llwyddiannus ac effeithiol â phob math gwahanol o randdeiliaid a grwpiau.<br><br>Er mwyn iddynt i gyd deimlo’n hapus ar y cyfan gyda’r cyfleoedd a ddarparwyd i rannu adborth, a lefel y diddordeb yn y cynnig, dylai nifer y bobl sy’n cymryd rhan mewn | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig | Gorffennaf – Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllunio'r ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth<br><br>2. Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny<br><br>3. Cynllunio a chyflwyno'r ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol<br><br>4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol<br><br>5. Dim jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir, a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall<br><br>6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan<br><br>7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol<br><br>8. Rhoi'r adnoddau a'r cymorth priodol i | | digwyddiadau ymgynghori yn y dyfodol, a nifer yr ymatebion i'r holiaduron, fod yr un mor uchel ag yn y blynyddoedd blaenorol, neu'n uwch. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol<br><br>9. Rhoi gwybod i bobl beth yw effaith eu cyfraniad<br><br>10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu | | | | |

Os na fydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd i leihau neu ddiddymu effeithiau negyddol, esboniwch pam. Rhaid i unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon o ganlyniad i'r cynnig gael ei newid neu ei adolygu.

| |
|---|
| Amherthnasol |

## Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut byddwch chi'n monitro effeithiolrwydd y cynnig?

| |
|---|
| Bydd CNC yn monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu effeithiolrwydd y cynnig yn gyson drwy gasglu gwybodaeth ac adborth yn rheolaidd gan randdeiliaid, y cyhoedd a'r bobl hynny o grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi cael ei wneud, a bydd yn parhau i gael ei wneud drwy ffurflenni cofrestru yn y digwyddiadau, drwy gasglu ffurflenni gwerthuso digwyddiadau (digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori a fydd yn cael eu rhannu ar ôl y digwyddiad), a thrwy gasglu adborth mewn holiaduron. Yn yr un modd â holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, os bydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnal ymgynghoriad statudol ym mis Gorffennaf, bydd yr holiadur a fydd yn cael ei rannu unwaith eto yn cynnwys adran 'amdanoch chi' ar y diwedd lle byddwn yn gofyn cwestiynau a fydd yn caniatáu inni fonitro demograffeg a chefndiroedd y bobl hynny sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Fel tîm prosiect, mae CNC wedi cynnal sesiynau rheolaidd ar y gwersi a ddysgwyd drwy gydol y cyfnodau ymgysylltu ac ymgynghori, a bydd yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau bod effeithiolrwydd y cynnig a'r cyrhaeddiad yn cael eu hadolygu, eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus. |

## Adolygu a chymeradwyo'r asesiad cyn penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 16 Gorffennaf (sicrhau bod yr asesiad yn cael ei adolygu yn dilyn unrhyw ddiweddariad neu newid, a bod copi terfynol yn cael ei anfon i equalities@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

| Enw | Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|
| Lyn Willams | Welsh Language Policy Advisor | 11.8.2025 |
| Keith Davies | Principal Advisor Designated Landscapes | 11.8.2025 |
| Ash Pearce | Designated Landscapes Programme Manager / Team Leader | 11.8.2025 |

## Crynodeb o benderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddynodi parc cenedlaethol newydd

Mae ffin yr ymgeisydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi'i diweddaru i ffin arfaethedig derfynol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn dilyn **y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn 2024 a gwerthusiad manwl dilynol o'r ffin fanwl yn dilyn y confensiynau gosod ffiniau a nodir yn GN10**. Mae'r diwygiadau'n gwella cydlyniant ac amddiffynadwyedd y ffin arfaethedig ac yn gwella aliniad â'r meini prawf dynodi statudol, harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.

Mae'r ffin arfaethedig yn cynnwys twyni Gronant a Thalacre ac yn cadw tirwedd nodedig Bryniau Clwyd a ucheldiroedd Berwyn ac ardaloedd cysylltiedig agos o harddwch naturiol nodedig, gyda thawelwch a gwylltineb, cynefinoedd a rhywogaethau o werth uchel a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.

Mae ardaloedd a gedwir yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ecolegol, adfer mawndir ac i ffermio elwa o gymorthdaliadau a chyllid amaethyddol sy'n canolbwyntio ar natur.

Mae ardaloedd o Bowys a oedd wedi'u cynnwys yn y ffin ymgeisydd wedi'u heithrio o'r ffin arfaethedig derfynol oherwydd y dangosiad llai clir o gydlyniant cyffredinol y meini prawf dynodi yn yr ardaloedd hyn.

**Enw'r Parc Cenedlaethol**

Parc Cenedlaethol - **Glyndŵr** – Parc Cenedlaethol yw'r enw arfaethedig o hyd. Mae ganddo gysylltiad hanesyddol, diwylliannol a daearyddol cryf â'r ardal ffin arfaethedig. Bydd defnyddio Glyndŵr yn rhoi hunaniaeth Gymreig i'r Parc Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf.

Awdurdodwyd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad statudol ar Barc Cenedlaethol yn eu cyfarfod ar 16.7.25.

## Adolygu a chymeradwyo'r asesiad yn dilyn penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 16 Gorffennaf

| Enw | Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|
| Keith Davies | Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig | 11.8.2025 |
| Ash Pearce | Rheolwr Rhaglen Tirweddau Dynodedig / Arweinydd Tîm | 11.8.2025 |

## Adolygu’r asesiad a chymeradwyo’r copi terfynol yn dilyn ymgynghoriad statudol

Er mwyn sicrhau mai dim ond un copi o’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb sy’n bodoli, mae angen ei gadw yn y ffolder berthnasol (fesul blwyddyn) yn y system rheoli dogfennau – Asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb – Golwg CNC (sharepoint.com).

| Enw | Swydd | Llofnod | Dyddiad |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | |
| | | | |
| | | | |